



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
food.gov.uk

# Amdanom ni a'n cenhadaeth



.....

## Cynnwys

.....

<b>Gair am yr Asiantaeth Safonau Bwyd</b>	<b>3</b>
<b>Cenhadaeth a gweledigaeth</b>	<b>3</b>
<b>Ein pobl</b>	<b>4</b>
<b>Ein dull ni o weithio</b>	<b>5</b>
<b>Y system rheoleiddio bwyd</b>	<b>6</b>
<b>Ein gwaith</b>	<b>8</b>
<b>Ein proses dadansoddi risg</b>	<b>9</b>
<b>Gweithio yn yr ASB</b>	<b>11</b>
<b>Yr ASB: Diogelu eich plât ers 2000</b>	<b>12</b>



## Gair am yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn 2000, yn dilyn achosion uchel eu proffil o salwch a gludir gan fwyd, fel adran annibynnol o'r llywodraeth sy'n gweithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Ein cenhadaeth yw bwyd y gallwn ni ymddiried ynddo.

Mae ein gwaith nid yn unig yn diogelu pobl, ond hefyd yn lleihau baich economaidd salwch a gludir gan fwyd ac yn cefnogi economi a masnach y Deyrnas Unedig (DU) trwy sicrhau bod gan ein bwyd enw da o ran diogelwch a dilysrwydd yn y DU a thramor.

Rydym ni'n gyfrifol am y systemau sy'n rheoleiddio busnesau bwyd ac rydym ni ar flaen y gad wrth fynd i'r afael â throseddau bwyd.

Mae rôl yr ASB yn ymwneud â mwy na diogelwch bwyd yn unig, mae hefyd yn ymwneud â buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, sy'n cynnwys pris, argaeledd, a rhai agweddau ar safonau cynhyrchu bwyd fel pryderon amgylcheddol a lles anifeiliaid.

Yn sail i'n gwaith mae'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf y cytunir arnynt yn ein cyfarfodydd Bwrdd agored. Mae tryloywder yn egwyddor sy'n llywio'r ASB ac sy'n allweddol i gynnal hyder y cyhoedd.

## Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein cenhadaeth gyffredinol yw sicrhau bwyd y gallwn ni ymddiried ynddo, ac mae ein gweledigaeth yn cynnwys y nodau canlynol:

- Mae bwyd yn ddiogel
- Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label
- Gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus am beth i'w fwyta
- Mae gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy, nawr ac yn y dyfodol\*

\* dim ond yng Ngogledd Iwerddon y mae'r ASB yn gyfrifol am bolisi maeth, ac nid yng Nghymru nac yn Lloegr.



## Ein pobl

Mae mwy na 1,300 o bobl yn gweithio i ni er mwyn sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Maent yn cynnwys ystadegwyr, dadansoddwyr, ymchwilwyr, arolygwyr, arbenigwyr gorfodi, gweithwyr polisi proffesiynol, economegwyr, milfeddygon a mwy na 500 o staff rheng flaen, sy'n gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid cyflenwi gweithredol i arolygu lladd-dai a safleoedd cynhyrchu cynradd eraill.

Fel adran anweinidogol o'r llywodraeth, rydym ni'n cael ein llywodraethu gan Fwrdd yn hytrach na gweinidogion. Ein Bwrdd sy'n pennu cyfeiriad strategol cyffredinol ein sefydliad.

Mae bwyd yn fater datganoledig, felly mae Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd Cymru a Gogledd Iwerddon yn darparu cyngor a mewnwleidiad i'r Bwrdd sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd yn eu gwledydd nhw.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cael ei arwain gan ein 14 Pwyllgor Cynghori Gwyddonol annibynnol, sy'n dibynnu ar safbwyntiau mwy na 100 o arbenigwyr, gan sicrhau bod ein canllawiau bob amser yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau a mwyaf diweddar.



## Ein dull ni o weithio

Rydym ni'n defnyddio dull gwyddonol, seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, gan rymuso busnesau a defnyddwyr i wneud y peth iawn i gadw bwyd yn ddiogel. Rydym ni'n dweud y gwir am fwyd.

### Ein nod yw:

- Bod yn llais dibynadwy ar safonau bwyd er budd defnyddwyr
- Ei gwneud yn hawdd i fusnesau gynnal diogelwch a safonau bwyd

Mae  
**78%**  
o bobl wedi  
clywed am  
yr ASB

O'r rheiny, mae  
**73%**  
yn ymddiried  
ynom i wneud ein  
gwaith

- Cydweithio â'r rhai mwyaf dylanwadol yn y system fwyd i wella diogelwch a safonau bwyd
- Manteisio i'r eithaf ar ddata a gallu digidol yn fewnol ac yn allanol i gryfhau ein dylanwad
- Gweithredu'n dryloyw ac yn agored

## Y cyd-destun yr ydym ni'n gweithio ynddo

### Sector bwyd y DU

**£120.2 biliwn**

cyfraniad y sector bwyd-amaeth i'r Gwerth Ychwanegol Gros cenedlaethol yn 2018 (Y Deyrnas Unedig)



**4.1 miliwn o bobl**

yn cael eu cyflogi yn y sector bwyd-amaeth yn Chwarter 4 2019 (Prydain Fawr)



**£234 biliwn**

gwariant defnyddwyr ar fwyd, diod ac arlwyyo yn 2019 (Y Deyrnas Unedig)



**£23.6 biliwn**

Allforion bwyd, bwyd anifeiliaid a diod yn 2019 (Y Deyrnas Unedig)



**500,000+** o sefydliadau bwyd (2018/19) Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

Cynhyrchwyr Cynradd

**4,000**



Gweithgynhyrchwyr a Phecynwyr

**17,000**



Mewnforwyr/Allforwyr

**1,000**



Dosbarthwyr/Cludwyr

**9,000**



Manwerthwyr

**124,000**



Bwytaï ac Arlwywyr

**413,000**



Ffynhonnell: [National Statistics Food Statistics in your pocket: Summary](#)

Ffynhonnell: [Adroddiad Blynyddol ar Waith Gorfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol 2018-2019](#)

## Y system rheoleiddio bwyd

Mae'r system fwyd yn gymhleth ac mae'r broses o'i rheoleiddio yn cynnwys sawl corff. Mae'r ASB yn gweithredu yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon ac mae ganddi wahanol gyfrifoldebau polisi o fewn y gwledydd hyn. Safonau Bwyd yr Alban yw adran anweinidogol Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd, safonau bwyd, maeth, labelu bwyd, rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid ac arolygu cig yn yr Alban.

### Polisi

#### Yr ASB

Diogelwch a hylendid bwyd  
Diogelwch, hylendid a labelu bwyd anifeiliaid  
Labelu bwyd (diogelwch, alergedd)

#### Yr ASB yng Nghymru

Diogelwch a hylendid bwyd  
Diogelwch, hylendid a labelu bwyd anifeiliaid  
Labelu bwyd (diogelwch, alergedd)  
Labelu bwyd arall (gan gynnwys safonau cyfansoddiad, gwlad tarddiad)

#### Yr ASB yng Ngogledd Iwerddon:

Diogelwch a hylendid bwyd  
Diogelwch, hylendid a labelu bwyd anifeiliaid  
Labelu bwyd (diogelwch, alergedd)  
Safonau maeth, labelu bwyd maeth  
Labelu bwyd arall (gan gynnwys safonau cyfansoddiad bwyd, gwlad tarddiad)

#### Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

Labelu bwyd arall (Lloegr) (gan gynnwys safonau cyfansoddiad, gwlad tarddiad)

#### Llywodraeth Cymru

Safonau maeth, labelu bwyd maeth (Cymru)

#### Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Safonau maeth, labelu bwyd maeth (Lloegr)

## Pwy sy'n gorfodi rheolaethau bwyd

### Ar ran yr ASB

Mae **Arolygwyr Hylendid Cig** a Milfeddygon Swyddogol yn cynnal gwiriadau hylendid, dogfennau a chorfforol ac yn cymryd samplau gan gynhyrchwyr cig cymeradwy (gan gynnwys lladd-dai a ffatrioedd torri).

Mae milfeddygon cymwys yn cynnal gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid ac yn cynnal gwiriadau lles anifeiliaid\*.

\*DAERA sy'n gyfrifol am weithrediadau cig ar ran yr ASB yng Ngogledd Iwerddon.

### Ar ran awdurdodau lleol

Mae **Swyddogion Diogelwch Bwyd** yn cynnal rheolaethau swyddogol ar ddiogelwch a hylendid bwyd. Maent yn arolygu safleoedd i wirio bod bwyd yn cael ei storio a'i baratoi'n ddiogel.

Mae **Swyddogion Safonau Bwyd** yn gwirio bod bwyd yn bodloni safonau diogelwch, cyfansoddiad a safonau labelu maeth (er enghraifft, labelu alergenau, dyddiadau 'defnyddio erbyn', gwybodaeth am faeth a chyfansoddiad).

### Ar gyfer bwyd sy'n cael ei fewnforio

Mae **Swyddogion Iechyd Porthladdoedd** yn cynnal gwiriadau dogfennau ar sail risg, gwiriadau adnabod, gwiriadau corfforol, ac yn cymryd samplau o fewnforion bwyd.

Mae **Milfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Pysgod Swyddogol** yn cynnal gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid.

## Busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid

O dan reoliadau bwyd a bwyd anifeiliaid y DU, cyfrifoldeb busnesau bwyd yw sicrhau bod yr holl fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael ei roi ar y farchnad yn ddiogel, ei fod o'r ansawdd y byddai defnyddwyr yn ei ddisgwyl ac nad yw'n cael ei labelu mewn ffordd ffug neu gamarweiniol.

Mae'r ASB yn uniongyrchol gyfrifol am reolaethau cynhyrchwyr cig ffres (gan gynnwys lladd-dai a ffatrioedd torri), gwin a sefydliadau llaeth ar y fferm cymeradwy. Mae'r ASB ac awdurdodau lleol yn cynnal rheolaethau swyddogol ar bysgod cregyn ar y cyd.

Ymhlith y busnesau bwyd y mae awdurdodau lleol yn ymwneud â nhw mae cynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd, sefydliadau arlwyyo, busnesau tecawê a dosbarthu bwyd, manwerthwyr a sefydliadau llaeth, cig a physgod cymeradwy. Mae'r ASB ac awdurdodau lleol yn cynnal rheolaethau ar bysgod cregyn ar y cyd.

Mae awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd yn Lloegr, awdurdodau lleol ac APHA yng Nghymru, ac awdurdodau lleol a DAERA yng Ngogledd Iwerddon yn gyfrifol am reolaethau ar fwyd a fewnforir. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw rheolaethau bwyd anifeiliaid yng Nghymru ac yn Lloegr, a DAERA yng Ngogledd Iwerddon.

## Defnyddwyr

Mae defnyddwyr yn gyfrifol am baratoi a storio bwyd yn ddiogel yn eu cartrefi ac am wirio labeli i sicrhau bod bwyd yn addas iddynt ei fwyta.

## Ein gwaith

- **Rheoleiddio bwyd yn effeithiol ac yn arloesol** – rydym ni'n sicrhau effeithiolrwydd y system rheoleiddio bwyd. Rydym ni bob amser yn mireinio ein dull rheoleiddio i'w gwneud hi'n haws i fusnesau wneud y peth iawn mewn ecosystem fwyd fyd-eang gymhleth, sy'n symud yn gyflym.
- **Diogelu'r cyhoedd rhag clefyd a gludir gan fwyd** – rydym ni'n gweithio gyda ffermwyr, cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd, defnyddwyr, a'r diwydiannau manwerthu a lletygarwch i leihau'r risg o glefyd a gludir gan fwyd (gwenwyn bwyd), sydd â baich cymdeithasol o oddeutu £9.1 biliwn y flwyddyn.
- **Rheolaethau ar ladd-dai a chynhyrchu cynradd** – rydym ni'n cynnal gwiriadau mewn lladd-dai, ac rydym ni'n archwilio ac yn arolygu ffatrioedd torri cig, sefydliadau trin helgig (*game*), cynhyrchwyr gwin a sefydliadau cynnyrch llaeth ar y fferm. Rydym ni hefyd yn monitro ac yn adrodd ar ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn sydd wedi'u dosbarthu am halogiad a biotocsinau morol.
- **Dadansoddiad risg** – rydym ni'n defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth i ddarparu cyngor i weinidogion yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon ar ddiogelwch bwyd a buddiannau defnyddwyr. Rydym ni'n cynghori gweinidogion ar awdurdodi cynhyrchion newydd sy'n dod i'r farchnad.
- **Gorsensitifrwydd i fwyd** – rydym ni'n gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd a'u cefnogi i wneud dewisiadau diogel a gwybodus i reoli risg yn effeithiol.
- **Troseddau bwyd** – mae ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn swyddogaeth benodol ar gyfer gorfodi'r gyfraith sy'n arwain ar droseddau bwyd.
- **Trin ac ymateb i ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid** – rydym ni'n ymateb i ddigwyddiadau bwyd, gan weithredu i ddiogelu defnyddwyr pan fydd pryder am ddiogelwch neu ansawdd bwyd (a/neu fwyd anifeiliaid).

### Cydymffurfiaeth busnesau bwyd

Yn 2019/20, **cafodd 97.9% o weithredwyr busnesau bwyd cig eu sgorio yn 'foddhaol'** neu'n uwch am gydymffurfio â rheoliadau diogelwch bwyd, hylendid a lles anifeiliaid.



### Digwyddiadau

Yn 2019/20, **ymchwiliodd yr ASB i 2,479 o ddigwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid a halogiad amgylcheddol**, gan ddiogelu defnyddwyr trwy dynnu cynhyrchion o'r farchnad neu roi gwybod iddynt am y risgiau.





## Ein proses dadansoddi risg

Mae ein proses dadansoddi risg yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth i ddarparu cyngor i'r llywodraeth, busnesau a defnyddwyr ar risgiau diogelwch bwyd.

Dyma'r broses o amcangyfrif risgiau i iechyd pobl, dod o hyd i ffyrdd o reoli'r risgiau hyn, a chyfleu risgiau a rheolaethau i'r bobl sydd angen gwybod.

Yn ogystal â diogelwch bwyd, gall hefyd ystyried ffactorau eraill fel lles anifeiliaid, yr amgylchedd ac effaith economaidd.

Mae'r materion yn amrywio o reoli pathogenau (er enghraifft COVID-19, listeria) ac alergenau, i awdurdodi cynhyrchion golchi cemegol, prosesau GM a llawer mwy.

Rydym ni'n defnyddio'r un broses dadansoddi risg i gynghori gweinidogion y llywodraeth ar awdurdodi cynhyrchion newydd sy'n dod i'r farchnad, fel ychwanegion a chyflasynnau, o'r DU neu ymhellach i ffwrdd.

Mae'r cyngor sy'n deillio o waith dadansoddi risg yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, nid ar bwysau gwleidyddol na chyhoeddus ehangach.

- Yn ystod argyfwng y coronafeirws, gwnaethom gynnal asesiadau risg manwl ar COVID-19 yn trosglwyddo trwy fwyd a darparu cyngor i helpu busnesau a defnyddwyr i wneud y peth iawn.
- Pan gafodd cig mewn brechdanau ei gysylltu â heintiau listeria mewn cleifion ysbyty yn 2019, fe wnaethom ddefnyddio gwaith dadansoddi risg i wneud argymhellion rheoli risg i banel Adolygu Bwyd Ysbyty'r GIG i leihau'r risg y bydd grwpiau agored i niwed yn dal listeriosis yn y dyfodol.
- Yn 2015, fe gynhaliom ni ddadansoddiad risg ar wyau meddal a diweddarau ein cyngor i nodi y gallai grwpiau bregus nawr fwyta wyau iâr y DU yn amrwd neu wedi'u coginio'n ysgafn os ydynt â marc Llew Prydain arnynt.

Mae ein proses dadansoddi risg yn arwain yn fyd-eang o ran rheoleiddio diogelwch bwyd ac yn rhoi tryloywder, dealltwriaeth y cyhoedd ac ymddiriedaeth wrth ei gwraidd.

**Mae dadansoddi risg yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth**



**COVID-19**



**Listeria**



**Wyau meddal**

## Partneriaethau

Rydym ni'n ymdrechu i adeiladu partneriaethau strategol a chydweithredol yn y DU a thramor.

Mae partneriaethau gwyddonol ar draws y llywodraeth a chyda'r byd academiaidd yn hanfodol er mwyn diwallu ein hanghenion gwyddoniaeth a thystiolaeth. Er enghraifft, mae ein proses dadansoddi risg, sy'n dadansoddi risgiau diogelwch bwyd, yn seiliedig ar safbwyntiau annibynnol dros 100 o arbenigwyr gwyddonol, dadansoddwyr ac ymarferwyr eraill.

Caiff ein Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ei gynnal mewn partneriaeth â 373 o awdurdodau lleol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Maent yn cynnal

arolygiadau hylendid mewn tua 490,000 o fusnesau – gan hybu dewis defnyddwyr a gwella safonau hylendid mewn bwyd.

Mae gwaith partner cryf hefyd yn ein helpu i ddeall a chyrraedd y defnyddwyr yr ydym ni'n ceisio eu diogelu. Er enghraifft, mae ein partneriaeth â Just Eat wedi ein helpu i gynyddu tryloywder gwybodaeth am hylendid mewn busnesau bwyd, gan alluogi defnyddwyr i ystyried diogelwch bwyd wrth archebu bwyd ar-lein. Mae cydweithio gydag elusennau fel Allergy UK a'r Ymgyrch Anaffylacsis yn ein helpu i ddeall a chefnogi pobl sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd yn well.



## Gweithio yn yr ASB

Rydym ni'n cynnig trefniadau gweithio cwbl hyblyg ac ymrwymiad i gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith gan ein bod yn credu fod hyn yn galluogi ein pobl i weithio ar eu mwyaf effeithiol.


Mae ffyrdd hyblyg o weithio (gan gynnwys y dewis i weithio'n gyfan gwbl o gartref) ac offer digidol sy'n hwyluso gweithio o bell yn golygu ein bod ni'n mwynhau lefelau uchel o ymgysylltiad staff ac mae'n ein helpu i ddenu a chadw'r dalent orau.

Yn 2019, fe wnaethom ni ennill Gwobr 'Arloesi mewn Gweithio Hyblyg' yng Ngwobrau Cyflogwyr Gorau Workingmums.co.uk – gwobr a oedd yn cydnabod bod ein polisïau a'n harferion hyblyg yn wirioneddol arloesol ac yn torri tir newydd.

Yn 2017 gwnaethom gyflwyno rhaglen i osod y safon aur ar gyfer gweithio hyblyg:

- Fe wnaethom ni symud ein swyddfa yn Llundain, adnewyddu ein swyddfeydd yng Nghaerdydd ac yng Nghaerefrog ac agor safle newydd sbon yn Birmingham.
- Fy gyflwynon ni gontractau newydd ar gyfer staff (gweithio yn y swyddfa, gweithio o gartref neu gyfuniad o'r ddau) a thrawsnewidiwyd ein technoleg gwybodaeth er mwyn gallu gweithio o bell.
- Fe roesom ni gyfle i staff gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith trwy roi dewis iddynt pa ran o'r dydd/gyda'r nos neu'r penwythnos y mae'n well ganddynt weithio.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn:



## Yr ASB: Diogelu eich plât ers 2000

2000



### Sefydlu'r ASB

ac ymrwymiad i fod yn agored  
ac yn dryloyw

Sefydlwyd yr ASB fel adran annibynnol o'r llywodraeth sy'n gweithio ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Fe'i sefydlwyd ar ôl sawl achos (*outbreak*) proffil uchel a marwolaethau yn sgîl salwch a gludir gan fwyd.

Wrth ei sefydlu, ymrwymodd yr ASB i weithredu'n agored ac yn dryloyw, gyda chyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac wrth gyhoeddi Cod Ymarfer ar Fod yn Agored, sy'n dal i fodoli heddiw. Roedd y Cod Ymarfer hefyd yn ymrwymo'r ASB i gyhoeddi'r holl gyngor y mae'n ei roi i rannau eraill o'r llywodraeth – gan dorri tir newydd ar y pryd, a hyd at heddiw.

2005

700,000+



### Lansio 'Bwyd mwy diogel, busnes gwell' i wneud hylendid bwyd yn haws i fusnesau bach

Yn 2005 lansiwyd 'Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell' i helpu busnesau bach a meicro i fabwysiadu gweithdrefnau diogelwch bwyd da. Cafodd y pecynnau eu datblygu i ddiwallu anghenion gwahanol fathau o fusnesau – gan gynnwys cwmnïau arlwyyo bach, cwmnïau manwerthu bach, bwytai a siopau tecawê – ac maen nhw'n parhau i fod yn rhan greiddiol o'r hyn rydym ni'n ei gynnig. Mae'r rhan fwyaf o fwytai gyda chopi yn eu cegin erbyn hyn. Yn 2019 yn unig roedd bron i 800,000 o bobl wedi clicio ar dudalennau 'Bwyd Mwy

Diogel, Busnes Gwell' ar wefan yr ASB a mwy na 700,000 o bobl wedi lawrlwytho'r pecynnau.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae busnesau arlwyyo yn defnyddio'r canllawiau 'Safe Catering' i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth bwyd. Mae'r adnodd rheoli diogelwch bwyd hwn yn cynnig cyngor ymarferol a chynhwysfawr i arlwywyr i'w helpu i greu cynllun rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP.

## Yr ASB: Diogelu eich plât ers 2000

2007

Egni

2007kJ  
480kca

24%

### Cyflwyno labelu maeth

Arweiniodd yr ASB ar ddatblygiad cynnar labeli maeth ar flaen y pecyn ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw. Mae'r label yn dangos, ar gip, a yw bwyd yn cynnwys lefelau uchel (coch), canolig (oren) neu isel (gwyrdd) o fraster, braster dirlawn, siwgrau a halen, yn ogystal â chyfanswm yr egni (caloriau a kilojoules).

Dyluniwyd y system labelu, sydd bellach yn cael ei defnyddio'n

helaeth, i annog defnyddwyr i chwilio am fwyd iachach ac i gymhell busnesau i gynhyrchu'r bwyd hwnnw.

Rydym ni'n parhau i ddylanwadu ar y cynllun ac roedd ymgyrch ddiweddar i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon o'r enw 'Check the Label' yn annog defnyddwyr i ddefnyddio labeli ar flaen y pecyn trwy dynnu sylw at werth maeth bwydydd a brynir yn aml.

2010

72%

5

### Gwella safonau hylendid mewn busnesau bwyd

Yn 2010, fe lansion ni'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gwirfoddol i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am y safonau hylendid mewn busnesau bwyd.

Rydym ni'n gweithredu'r cynllun mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Maent yn rhoi sgôr hylendid i fusnesau, o 0 ar y gwaelod i 5 ar y brig. Daeth y Cynllun yn orfodol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac yng Ngogledd Iwerddon ym mis

Hydref 2016, gan olygu bod yn rhaid i fusnesau arddangos eu sgoriau.

Mae safonau hylendid wedi gwella, gyda busnesau a gafodd y sgôr uchaf o 5 yn cynyddu o 53% yn 2013 i 72% yn 2019. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod busnesau sydd â sgôr uwch yn llai tebygol o fod yn gyfrifol am achosion o salwch a gludir gan fwyd.

## Yr ASB: Diogelu eich plât ers 2000

2014



### Lleihau gwenwyn Campylobacter

Yn 2014, Campylobacter oedd yr achos mwyaf cyffredin o wenwyn bwyd bacteriol yn y DU, gan effeithio ar fwy na chwarter miliwn o bobl bob blwyddyn.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, lansiodd yr ASB gynllun 'Awn i'r Afael â Campylobacter trwy Gydweithio'.

Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda ffermwyr, lladd-dai a manwerthwyr i leihau presenoldeb Campylobacter a'r posibilrwydd o groeshalogi ac addysgu defnyddwyr ac arlwywyr ar arferion hylendid da.

2018



### Peilota'r defnydd o dechnoleg 'blockchain'

#### fel adnodd rheoleiddiol i sicrhau a dilysu cydymffurfiaeth yn y gadwyn fwyd

Yn 2018, llwyddon ni i gwblhau cynllun peilot gan ddefnyddio technoleg 'blockchain' mewn lladd-dy gwartheg. Hwn oedd y tro cyntaf erioed i blockchain gael ei ddefnyddio fel adnodd rheoleiddiol i sicrhau a dilysu cydymffurfiaeth yn y gadwyn fwyd.

Mae Blockchain yn cymryd cofnodion o bob cam ar hyd y gadwyn gyflenwi – o'r adeg y mae'r anifail yn cyrraedd y lladd-dy, i'r adeg y caiff y cig ei becynnu – ac yn eu rhoi mewn bloc.

Bydd pob bloc yn 'gadwyn' i'r bloc nesaf, gan ddefnyddio llofnod wedi'i amgryptio.

Mae hyn yn caniatáu i'r cofnod gael ei rannu a'i wirio gan

unrhyw un sydd â chaniatâd (o ffermwyr i ladd-dai), yn hytrach na chael un system ganolog wedi'i rheoli gan un sefydliad.

Gallai blockchain gynyddu tryloywder y gadwyn gyflenwi, gan fod modd rhannu gwybodaeth am anifail penodol yn hawdd ar draws y gadwyn.

Nid oes modd amharu ar y system, gan ei bod yn cynnwys sawl copi o ddata. Mae'n gwella'r gallu i olrhain, gan fod nodi taith cynnyrch yn helpu i sicrhau ansawdd. Mae'n arbed amser, gan fod blockchain yn gwella gweithrediadau trwy leihau unrhyw weithgareddau di-angen, fel dyblygu data.

## Yr ASB: Diogelu eich plât ers 2000

2019

Yn Cynnwys



### Gwella ansawdd bywyd y rheiny sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd

Yn 2019, cynhaliodd y Llywodraeth Adolygiad Labelu Alergenau yn dilyn marwolaeth Natasha Ednan-Laperouse. Bu farw Natasha o adwaith alergaidd i sesame mewn baguette, nad oedd wedi'i labelu â gwybodaeth am alergenau.

Argymhellodd Bwrdd yr ASB y dylid labelu cynhwysion ac alergenau yn llawn ar fwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) – sef bwyd wedi'i becynnu ar y

safle cyn i gwsmer ei archebu, fel rhai mathau o salad neu frechdanau.

Cytunodd y Llywodraeth â'r argymhelliad hwn, ac o fis Hydref 2021, bydd yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau ddarparu rhestr llawn o gynhwysion ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, gan bwysleisio'r alergenau. Bydd hyn yn galluogi'r rheiny sydd â gorsensitifrwydd i fwyd wneud dewisiadau diogel wrth brynu bwyd.



# Ein presenoldeb

Rydym ni'n gweithredu yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Safonau Bwyd yr Alban yw adran anweinidogol Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd, safonau bwyd, maeth, labelu bwyd, rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol ac arolygu cig yn yr Alban.

## Cymru

Llawr 11, Tŷ Southgate  
Wood Street  
Caerdydd, CF10 1EW

## Llundain

Lloriau 6 a 7, Clive House  
70 Petty France  
Llundain SW1H 9EX

## Caerefrog

Foss House  
Kings Pool  
1-2 Peasholme Green  
Caerefrog YO1 7PR

## Birmingham

Apex House  
Calthorpe Road  
Edgbaston  
Birmingham B15 1TR

## Gogledd Iwerddon

10c Clarendon Road  
Belfast BT1 3BG

## © Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Mewn manau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost at [fsa.communications@food.gov.uk](mailto:fsa.communications@food.gov.uk)



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
[food.gov.uk](https://food.gov.uk)

